**Atodiad A: Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned**

Caiff yr Asesiad yma o'r Effaith ar y Gymuned ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018). Mae i'w ddarllen ochr yn ochr â'r Ddogfen Ymgynghori, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan fod yr wybodaeth ym mhob dogfen yn gysylltiedig ac mae'r themâu ynddyn nhw'n drawsbynciol.

| **ADRAN 1 – MANYLION Y CYNNIG** | |
|---|---|
| **Swyddog Arweiniol:** | Lisa Howell. |
| **Cyfarwyddwr Gwasanaeth:** | Andrea Richards. |
| **Maes Gwasanaeth:** | Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant - Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| **Dyddiad:** | 04.09.2024 |
| **Cynnig:** | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf [y Cyngor] yn dymuno ceisio barn rhanddeiliaid ar y cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i ysgol cyfrwng Saesneg. |
| **Trosolwg o'r cynnig:** | Cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer plant 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i Ysgol Cyfrwng Saesneg. Cynigir y bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn agor erbyn blwyddyn academaidd 2027, gyda lle i 480 o ddisgyblion oedran ysgol statudol (dosbarth derbyn i flwyddyn 6), a 60 ar gyfer disgyblion oed meithrin, gydag Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar yr un pryd, gyda chapasiti mwy o 488 ynghyd â 63 o leoedd meithrin.<br><br>Mae'r cynnig yma'n cael ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018). Mae Adran 2.1 o God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018) yn cyfeirio at elfennau o drefniadaeth ysgolion sy'n gofyn am gyhoeddi cynigion, gan gynnwys:<br><br>• Agor ysgol a gynhelir.<br>• Gwneud newid a reoleiddir i ysgol a gynhelir. |

| | |
|---|---|
| | Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99, bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y ddarpariaeth yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cynnwys:<br><br>• Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa fawr, ardal adnoddau dysgu amlbwrpas a chyfleusterau cwbl hygyrch.<br>• Mannau hyblyg i ganiatáu cyflwyno'r meysydd dysgu a phrofiad yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.<br>• Ardaloedd dan do ac awyr agored i'r gymuned leol.<br>• Rhywfaint o le ychwanegol ar gyfer ymyraethau anghenion dysgu ychwanegol (ADY).<br>• Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm.<br>• Mesurau rheoli traffig gwell.<br><br>Yn ogystal â hyn, bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn gweithredu'n ysgol Carbon Sero-Net. |
| **Newidiadau i ddalgylchoedd:** | Nid oes unrhyw newidiadau i ddalgylchoedd wedi'u cynnig o ganlyniad i'r ymgynghoriad yma. Bydd y dalgylch cyfrwng Saesneg presennol ar gyfer Ysgol Gynradd Dolau yn parhau, tra bydd y dalgylch cyfrwng Cymraeg presennol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr ysgol newydd. Fel y cyfryw, mae disgwyl na fydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith andwyol ar y gymuned mewn perthynas â newid dalgylch. |
| **Amlinelliad o ble mae deddfwriaeth neu sbardunau eraill fel cod ymarfer yn effeithio ar gyflawni'r cynnig yma.** | Mae pwerau i Gynghorau ddatblygu cynigion trefniadaeth ysgolion yn cael eu llywodraethu gan:<br><br>• Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.<br>• Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018).<br><br>Rhaid i gynghorau, wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 3 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol a gynhwysir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018) a rhaid iddo roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd ynddo. |
| **Dyddiadau'r ymgynghoriad:** | Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 9 Medi 2024 ac yn dod i ben am 5 pm ar 25 Hydref 2024. Mae Dogfen Ymgynghori wedi cael ei dosbarthu i'r holl randdeiliaid penodedig. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yma yn Atodiad i'r Ddogfen Ymgynghori. |
| **Ymgysylltu â Chymunedau** | Mae croeso i aelodau o'r gymuned sy'n dymuno cael rhagor o wybodaeth am y cynnig fynd i sesiwn galw heibio gyhoeddus ble bydd modd iddyn nhw drafod y cynnig gyda swyddogion o Gyfarwyddiaeth Addysg |

a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor. Caiff yr achlysur ymgysylltu yma ei gynnal yn Ysgol Gynradd Dolau ddydd Iau 8 Hydref 2024 rhwng 3pm a 6pm.

## ADRAN 2 – DATA

**Data tueddiadau:**

Mae data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2024 yn nodi bod 466 o ddisgyblion oedran ysgol statudol yn mynychu Ysgol Gynradd Dolau ar hyn o bryd, gyda 311 o ddisgyblion yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg a 155 o ddisgyblion yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r tabl dilynol yn amlinellu nifer y disgyblion oedran ysgol statudol yn Ysgol Gynradd Dolau dros y pum mlynedd academaidd flaenorol, wedi'i rannu yn ôl cyfrwng iaith. Caiff niferoedd y disgyblion o oedran meithrin ar gyfer pob blwyddyn academaidd eu dangos ar wahân, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018).

**Niferoedd Disgyblion Ysgol Gynradd Dolau Dros y Pum Mlynedd Academaidd Flaenorol (CYBLD) wedi'i rannu yn ôl Cyfrwng Saesneg a Chyfrwng Cymraeg**

| **Disgyblion** | **Blwyddyn Academaidd** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2019/2020** | **2020/2021** | **2021/2022** | **2022/2023** | **2023/2024** |
| **Disgyblion Oed Ysgol Statudol (Cyfrwng Saesneg)** | 275 | 282 | 294 | 310 | 311 |
| **Disgyblion Oed Ysgol Statudol (Cyfrwng Cymraeg)** | 163 | 164 | 166 | 151 | 155 |
| **Disgyblion oed meithrin (Cyfrwng Saesneg)** | 45 | 43 | 50 | 32 | 48 |
| **Disgyblion oed meithrin (Cyfrwng Cymraeg)** | 24 | 21 | 10 | 28 | 18 |
| **Cyfanswm (Cyfrwng Saesneg)** | **320** | **325** | **344** | **342** | **359** |
| **Cyfanswm (Cyfrwng Cymraeg)** | **187** | **185** | **176** | **179** | **173** |

| | |
|---|---|
| | **Cyfanswm (Cyfunol)** \| **507** \| **510** \| **520** \| **521** \| **532** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm (Cyfunol)** | **507** | **510** | **520** | **521** | **532** |

Mae'r data'n dangos, rhwng blynyddoedd academaidd 2019/2020 a 2023/2024:

- Mae nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n mynychu Ysgol Gynradd Dolau yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng:
  - y Saesneg wedi cynyddu 13.1% (36) o 275 i 311.
  - y Gymraeg wedi gostwng 4.9% (8) o 163 i 155.

- Mae cyfanswm y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Dolau yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng:
  - y Saesneg wedi cynyddu 10.9% (39) o 320 i 359.
  - y Gymraeg wedi gostwng 7.5% (14) o 187 i 173.

**Data rhagamcanol:**

Mae’r tabl dilynol yn amlinellu'r rhagolygon o ran nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Dolau dros y pum mlynedd academaidd i ddod. Mae'r niferoedd wedi'u cyfrifo yn unol â’r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn seiliedig ar ddata genedigaethau byw ar gyfer yr ardal.

**Rhagolygon o ran Nifer y Disgyblion yn Ysgol Gynradd Dolau Dros y Pum Mlynedd Academaidd yn y Dyfodol**

| **Disgyblion** | **Nifer y lleoedd** | **Blwyddyn Academaidd** | | | | | | **Lleoedd Gwag yn 2028/2029** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Gwir ffigwr** | **Amcanestyniadau** | | | | | | |
| | | **2023 / 2024** | **2024 / 2025** | **2025 / 2026** | **2026 / 2027** | **2027 / 2028** | **2028 / 2029** | **Nifer** | **%** |
| **Disgyblion Oed Ysgol Statudol** | 441 | 466 | 466 | 469 | 461 | 458 | 451 | -10 | -2.3% |
| **Disgyblion oed meithrin** | Dd/B | 66 | 57 | 62 | 60 | 53 | 47 | Dd/B | Dd/B |

<table>
<tr><td></td><td><table><tr><td>Cyfanswm</td><td>504</td><td>532</td><td>523</td><td>531</td><td>521</td><td>511</td><td>498</td><td></td><td></td></tr></table><br>Mae'r data'n dangos erbyn blwyddyn academaidd 2028/2029:<br><br>• Bydd -2.3% (-10) o gapasiti oedran ysgol statudol yn Ysgol Gynradd Dolau.</td></tr>
<tr><td>Cyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol:</td><td>Ar hyn o bryd, mae 466 o ddisgyblion oedran ysgol statudol yn mynychu Ysgol Gynradd Dolau, gyda 79.4% (370) ohonyn nhw'n byw yn y dalgylch.</td></tr>
<tr><td>Cyfran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol:</td><td>Ar hyn o bryd, mae 466 o ddisgyblion oedran ysgol statudol yn mynychu Ysgol Gynradd Dolau, gyda 20.6% (96) ohonyn nhw'n byw y tu allan i'r dalgylch.</td></tr>
<tr><td colspan="2">ADRAN 3 – CYFLEUSTERAU NEU WASANAETHAU ERAILL Y MAE'R YSGOL YN EU LLETYA</td></tr>
<tr><td>Gwybodaeth am gyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu lletya</td><td>Gofal Plant<br>Y lleoliad gofal plant a blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg agosaf yw Cylch Meithrin Flourish Ysgol Dolau, sydd ar safle ysgol Ysgol Gynradd Dolau. Ar hyn o bryd, mae'r lleoliad yn darparu gofal drwy'r dydd, gan gynnwys sesiynau cyfrwng Cymraeg yn y boreau trwy Gylch Meithrin, yn ogystal â lleoedd Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg, a sesiynau dwy iaith yn y prynhawniau. Mae gan Ysgol Llanhari hefyd Gylch Meithrin Llanhari ar safle'r ysgol sy'n cynnig y dewis o sesiynau meithrin amser llawn neu ofal sesiynol, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Yn ogystal â hyn, caiff sesiynau Cylch Ti a Fi eu cynnal bob bore Gwener. Bydd yr adeilad ysgol cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig yn cynnwys cyfleuster gofal plant pwrpasol i ddarparu gofal plant cyfrwng Cymraeg a darpariaeth y blynyddoedd cynnar ar safle'r ysgol, gan gefnogi'r continwwm i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg. Pe bai'r cynnig hwn yn mynd rhagddo, bydd y darparwr presennol yn Ysgol Gynradd Dolau yn cael ei annog i barhau i gyflwyno sesiynau dwy iaith yn yr ysgol er mwyn rhoi cyfle i blant ddysgu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg o gamau cynharaf eu haddysg.<br><br>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd pennaeth yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei annog i hyrwyddo'r lleoliad blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg newydd ar safle'r ysgol i rieni/gwarcheidwaid yn yr ardal. Yn ogystal â hynny, bydd Ysgol Gynradd Dolau yn cael ei hannog i gynnal y ddarpariaeth ddwy iaith sy'n cael ei darparu yn yr ysgol ar hyn o bryd yn ystod y prynhawniau er mwyn rhoi'r cyfle i blant sy'n dod i'r ysgol barhau i fanteisio ar rywfaint o'r ddarpariaeth Gymraeg sy'n cael ei chyflwyno ar hyn o bryd.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | **Clwb Brecwast**<br>Mae Ysgol Gynradd Dolau yn cynnal clwb brecwast Mae'r clwb brecwast yn Ysgol Gynradd Dolau yn boblogaidd iawn ac mae tua 93* o ddisgyblion yn derbyn brecwast yno bob dydd. **Ffigurau yn seiliedig ar ddata gwirioneddol o 15 Mawrth 2024.*<br><br>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd y clwb brecwast yn Ysgol Gynradd Dolau yn parhau a bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd hefyd yn cynnal clwb brecwast.<br><br>Cyfrifoldeb yr ysgolion unigol yw darparu clybiau brecwast ac er eu bod nhw'n ddarpariaethau pwysig, dylid nodi nad yw gweithgareddau cyn ysgol yn ofyniad statudol.<br><br>Fel sy'n wir ledled Rhondda Cynon Taf, os bydd unrhyw ddisgyblion yn teithio i'r ysgol ar gludiant o'r cartref i'r ysgol, bydd cludiant o'r cartref i'r ysgol dim ond ar gael i gael mynediad at y clwb brecwast. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol arferol yn unig. Serch hynny, os bydd unrhyw ddisgybl sy'n teithio i'r ysgol ar gludiant o'r cartref i'r ysgol yn gofyn am frecwast ar ôl cyrraedd yr ysgol, yna bydd trefniadau yn cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau eu bod nhw'n derbyn brecwast.<br><br>**Gweithgareddau allgyrsiol**<br>Mae Ysgol Gynradd Dolau yn cynnal ystod o weithgareddau allgyrsiol gan gynnwys rygbi, criced, hoci, pêl-rwyd a Chlwb Chwaraeon yr Urdd. Yn ogystal â hyn, mae ysgol o bwyllgorau wedi'u sefydlu yn yr ysgol gan gynnwys Cyngor Ysgol, Cyngor Eco, Arweinwyr Digidol yn y Dolau, Carfan Les, Dreigiau Dolau a Chyngor Chwaraeon.<br><br>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd gweithgareddau allgyrsiol yn Ysgol Gynradd Dolau yn parhau a bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd hefyd yn cynnal gweithgareddau allgyrsiol. Yn yr un modd, bydd pwyllgorau'r ysgol yn parhau a bydd yr ysgol gynradd Gymraeg newydd yn cael ei hannog a'i chefnogi i sefydlu'r un peth.<br><br>Cyfrifoldeb yr ysgolion unigol yw darparu gweithgareddau allgyrsiol, ac er eu bod nhw'n ddarpariaethau pwysig, dylid nodi nad ydyn nhw'n ofyniad statudol. |

| | |
|---|---|
| | Fel sy'n wir ledled Rhondda Cynon Taf, ni fydd cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gael ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol yn unig. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol arferol yn unig.<br><br>**Defnydd y gymuned leol a thrydydd parti**<br>Mae Ysgol Gynradd Dolau yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau yn y gymuned leol a gweithgareddau trydydd parti.<br><br>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hannog yn frwd i ailadrodd y trefniadau yma. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd fel bod modd i'r gymuned leol a thrydydd parti ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. |
| **ADRAN 4 – CYFLEUSTERAU ERAILL YN Y GYMUNED CYFAGOS, Y GYMUNED LEOL A'R GYMUNED EHANGACH** | |
| **Gwybodaeth am y cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu'r gymuned ehangach** | Gweler uchod.<br><br>Mae llyfrgell Pont-y-clun tua 4.2 milltir o Ysgol Gynradd Dolau<br><br>Yn ardal Ysgol Gynradd Dolau mae nifer o barciau/mannau chwarae:<br><br>• I'r gogledd o Ysgol Gynradd Dolau mae dau barc/man chwarae oddi ar Stryd Wyndham a Stryd Harold<br>• Y tu ôl i Ysgol Gynradd Dolau mae parc/man chwarae oddi ar Ffordd Dol-y-Coed.<br>• I'r dwyrain o Ysgol Gynradd Dolau mae dau barc/man chwarae oddi ar Ffordd y Dolau a Threm y Parc.<br><br>Mae Canolfan Hamdden Llantrisant tua 4.2 milltir o Ysgol Gynradd Dolau.<br><br>Yn ardal Ysgol Gynradd Dolau mae nifer o gyfleusterau chwaraeon:<br><br>• I'r de-ddwyrain o Ysgol Gynradd Dolau mae cae pêl-droed wedi'i leoli yng Ngast Agored Llanillid.<br>• I'r gogledd o Ysgol Gynradd Dolau mae cae pêl-droed, Ardal Chwaraeon Amlddefnydd a pharc/man chwarae ym Maes Chwaraeon Brynna. |

| | |
|---|---|
| | Mae Hyb Cymunedol Bryn-cae tua 0.7 milltir o Ysgol Gynradd Dolau. Mae'r hwb cymunedol yn cynnal gweithgareddau amrywiol gan gynnwys dosbarthiadau iechyd a ffitrwydd i oedolion, dosbarthiadau crefft ymladd i blant, grwpiau i rieni/gwarcheidwaid a babanod a phlant bach yn ogystal â nifer o achlysuron tymhorol trwy gydol y flwyddyn. |
| **ADRAN 5 – TRAFNIDIAETH/TEITHIO LLESOL** | |
| **Effaith ar iechyd a lles, e.e. a fyddai disgyblion llai abl i gerdded neu feicio i'r ysgol:** | Mae'n ddyletswydd statudol ar bob Cyngor yng Nghymru i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i 'bellter cerdded' o'r ysgol honno. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, neu ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig cynradd, uwchradd neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio 'pellter cerdded' diogel yn ddwy filltir i ddisgyblion ar gyfer disgyblion o oedran addysg statudol a thair milltir i bob disgybl o oedran addysg uwchradd statudol (blwyddyn 7 i 11).<br><br>Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r disgresiwn sydd wedi'i roi iddo gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a chynnig darpariaeth fwy hael i ddisgyblion. Yn dilyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus diweddar a gychwynnwyd gan Gabinet y Cyngor, mewn perthynas â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol newydd arfaethedig ar gyfer y Cyngor, yr wybodaeth isod yw'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r cynnig:<br><br>• Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion o oedran ysgol gynradd statudol yn eu hysgol addas agosaf wedi cael ei osod ar 1½ milltir, yn hytrach na 2 filltir fel sy'n ofynnol gan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.<br>• Caiff cludiant am ddim ei ddarparu i'w hysgol addas agosaf, lle mae lleoedd ar gael, i ddisgyblion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyster 1½ milltir o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen, yn hytrach nag o ddechrau'r oedran ysgol statudol fel sy'n ofynnol gan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.<br>• Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth mewn perthynas â darpariaeth cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor ar gael i'w darllen a'i lawrlwytho o wefan y Cyngor:<br><br>https://www.rctcbc.gov.uk/cludiantysgol |

| | |
|---|---|
| | Mae tua 0.4 milltir rhwng Ysgol Gynradd Dolau a'r safle sydd wedi'i nodi ar gyfer yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar safle datblygiad tai Llanilid. Pe bai’r cynnig yn mynd rhagddo, mae llwybr cerdded diogel i ddisgyblion Ysgol Gynradd Dolau gerdded i'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd. Bydd modd i ddisgyblion sy'n mynd ar sgwter neu ar feic i'r ysgol ar hyn o bryd barhau i wneud hynny gan y bydd yr ysgol newydd yn agos at yr ysgol bresennol. Bydd gan yr ysgol newydd hefyd gyfleusterau storio beiciau diogel i annog teithio llesol ymhellach. Bydd y Cyngor hefyd yn rhoi’r ysgolion mewn cysylltiad â Sustrans i ddatblygu Cynlluniau Ysgol Teithio Llesol i annog ymhellach ddulliau teithio llesol/mwy cynaliadwy. |
| **Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ehangach y byddai'r newidiadau'n eu cael ar ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus:** | Gweler uchod.<br><br>Mae tua 0.4 milltir rhwng Ysgol Gynradd Dolau a'r safle sydd wedi'i nodi ar gyfer yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar safle datblygiad tai Llanilid. Pe bai’r cynnig yn mynd rhagddo, mae llwybr cerdded diogel i ddisgyblion Ysgol Gynradd Dolau gerdded i'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd.<br><br>O ran trafnidiaeth gyhoeddus, mae bws gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus sy'n rhedeg yn rheolaidd. Serch hynny, dydy cost a gweithredu trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal ddim yn rhan o gylch gwaith y Cyngor. |
| **ADRAN 6 – EFFAITH AR IECHYD A LLES** | |
| **Gwybodaeth am yr effaith ar iechyd a lles:** | **Disgyblion**<br>Rhagwelir na fydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith andwyol hirdymor ar ddisgyblion a dylid nodi ar yr adeg yma yn y broses ymgynghori statudol ar drefniadaeth ysgolion bod y Cyngor yn ystyried bod effaith gyffredinol y cynnig ar ddisgyblion yn gadarnhaol.<br><br>Bydd y cyfleusterau newydd yn yr ysgol newydd yn creu amgylcheddau dysgu ac addysgu modern a lliwgar sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif. Bydd yr adeilad ysgol newydd yn addas i'r diben ar gyfer darparu meysydd addysgu a dysgu hyblyg er mwyn sicrhau bod y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Bydd gan safle'r ysgol newydd fannau chwarae awyr agored newydd, ystafell ddosbarth awyr agored, ardal ysgol goedwig ac Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA), a bydd pob man yn gwbl hygyrch. Bydd y ffactorau yma o fudd i les pob disgybl. |

| | |
|---|---|
| | Bydd nodweddion cynaladwyedd yr adeilad newydd, gan gynnwys ynni'r haul; casglu dŵr glaw, a nodweddion draenio cynaliadwy hefyd yn ychwanegu at iechyd a lles disgyblion yn ogystal â chyfrannu at eu profiad addysgol.<br><br>Yn ddealladwy, mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion yn teimlo'n ofnus ynghylch y posibilrwydd o symud i ysgol newydd ar safle newydd. Serch hynny, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd cymorth wedi'i dargedu ar gyfer yr holl ddisgyblion o Ysgol Gynradd Dolau. Mae gwaith pontio cadarnhaol ac ystyrlon yn rhan allweddol o sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu yn eu hysgol newydd heb darfu ar eu lles a'u haddysg. Caiff hyn ei gefnogi trwy ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol effeithiol a chyfleoedd strwythuredig er mwyn i ddisgyblion ymgyfarwyddo ag amgylchedd yr ysgol newydd a'r staff.<br><br>Bydd cyngor a chefnogaeth yn cael ei ddarparu gan y Cyngor i staff o Ysgol Gynradd Dolau ac Ysgol Gymuned Tonyrefail i sicrhau bod y broses bontio mor llyfn a di-dor â phosibl. Mae'n anochel y bydd unrhyw gynigion sy'n cynnwys ad-drefnu ysgolion yn achosi rhywfaint o darfu ac ansicrwydd. Serch hynny, mae profiad yn dangos bod modd achosi cyn lleied o darfu â phosibl trwy ymgysylltu ystyrlon trwy gydol y broses ymgynghori ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu hefyd.<br><br>Mae'r tabl dilynol yn amlinellu manteision y cynnig: |

| **Manteision** |
|---|
| Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99 , bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| Bydd yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd:<br><br>• Wedi'i hadeiladu i safonau 'rhagorol' BREEAM.<br>• Yn gweithredu'n ysgol Carbon Sero-Net<br>• Gyda sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni o A.<br>• Bydd gwefrwyr Cerbydau Trydan ar y safle, sy'n cyfrannu at gyflawni Strategaeth Mynd i'r Afael â'r Newid yn yr Hinsawdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf: 2022 i 2025 – Hinsawdd Ystyriol Rhondda Cynon Taf. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Byddai'r cynnig yma hefyd yn cefnogi Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Carbon Isel a'i 'Drywydd' i ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus yng Nghymru. |
| | | Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd fel bod modd i'r gymuned leol a thrydydd parti ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. |
| | | Bydd y safle ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei ddylunio i gydymffurfio â safonau 'Diogelu Drwy Ddylunio' a fydd yn sicrhau bod ffin ac adeiladau'r ysgol yn cael eu diogelu'n llawn gyda theledu cylch cyfyng. Bydd perimedr y safle yn ddiogel, yn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn atal unigolion heb awdurdod rhag cael mynediad at y safle y tu allan i oriau ysgol. |
| | | Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn sicrhau y bydd y galw cynyddol am leoedd disgyblion cynradd, o ganlyniad i ddatblygiad tai Llanilid, yn cael ei fodloni. |
| | | Bydd y cynnig yn darparu rhagror o leoedd cyfrwng Saesneg yn yr ardal sydd eu hangen o ganlyniad i ddatblygiad tai Llanilid. |
| | | Bydd y cynnig yn agos iawn at safle presennol Ysgol Gynradd Dolau, gyda'r potensial ar gyfer ardaloedd chwarae allanol a rennir. |
| | | Bydd agosrwydd yr ysgol newydd yn lleihau anawsterau pontio posibl wrth symud o un safle ysgol i un arall. |
| | | Bydd rhywfaint o barhad yn y perthnasoedd sydd wedi'u hen sefydlu rhwng teuluoedd a staff ysgol. |
| | | Bydd cyfleoedd recriwtio yn y ddwy ysgol a rhagor o gyfleoedd ar gyfer dilyniant staff a datblygiad proffesiynol. |
| | | Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ifainc o bob oed. O ganlyniad i'r cynnig, disgwylir i Gyngor Rhondda Cynon Taf wella addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg a chynyddu nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg. |
| | | Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cefnogi targedau uchelgeisiol y Cyngor a thwf addysg Gymraeg. |
| | | Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg Llywodraeth Cymru. |
| | | Mae Ardoll Seilwaith Cymunedol wedi'i sicrhau i gyfrannu at y cynnig yma |

| | |
|---|---|
| | **Staff**<br>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, ein bwriad yw argymell i Gorff Llywodraethu yr Ygsol Gymraeg newydd Y bod unrhyw swyddi sydd eu hangen o ganlyniad i'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ac Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, islaw lefel uwch arweinwyr, yn cael eu clustnodi i'r staff presennol a gaiff eu cyflogi yn Ysgol Gynradd Dolau yn y lle cyntaf. Mae'r broses yma'n golygu y byddai staff Ysgol Gynradd Dolau yn cael y cyfle cyntaf i wneud cais am unrhyw swyddi newydd, cyn i unrhyw swyddi gael eu hysbysebu'n allanol. Os byddan nhw'n llwyddiannus, bydden nhw'n trosglwyddo pan fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith. Mae gyda'r Cyngor bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol. Bydd Carfan Adnoddau Dynol y Cyngor yn ymweld â phob aelod o staff Ysgol Gynradd Dolau a'u gwneud nhw i gyd yn effro i'r prosesu sydd ar ddod a'r holl gymorth sydd ar gael.<br><br>**Rhieni/Gwarcheidwaid**<br>Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd fel bod modd i'r gymuned leol a thrydydd parti ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai disgyblion presennol a rhieni/gwarcheidwaid elwa o hyn.<br><br>**Y Gymuned Leol**<br>Bydd defnydd y gymuned leol a thrydydd parti o'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei annog yn frwd. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd fel bod modd i'r gymuned leol a thrydydd parti ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai disgyblion presennol a rhieni/gwarcheidwaid elwa o hyn.<br><br>Bydd yr ardaloedd chwaraeon awyr agored hefyd ar gael i'w defnyddio y tu allan i oriau'r ysgol gan y gymuned leol a bydd yr ysgol yn cael ei chefnogi i sefydlu cysylltiadau â'r grwpiau cymunedol lleol sydd bellach yn ehangach er mwyn sicrhau y bydd y gymuned ehangach hefyd yn elwa o'r buddsoddiad cadarnhaol yma.<br><br>Bydd y gymuned ehangach a'r boblogaeth yn gyffredinol hefyd yn cael budd hirdymor ehangach sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod yr ysgol newydd yn gweithredu'n ysgol Carbon Sero-Net. |

| ADRAN 7 – DIOGELWCH Y GYMUNED | |
|---|---|
| **Gwybodaeth am faterion diogelwch y gymuned ehangach:** | Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, credir bod effaith y cynigion ar ddiogelwch y gymuned yn gadarnhaol. Bydd y safle ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei ddylunio i gydymffurfio â safonau 'Diogelu Drwy Ddylunio' a fydd yn sicrhau bod ffin ac adeiladau'r ysgol yn cael eu diogelu'n llawn gyda theledu cylch cyfyng. Bydd perimedr y safle yn ddiogel, yn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn atal unigolion heb awdurdod rhag cael mynediad at y safle y tu allan i oriau ysgol.<br><br>Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd fel bod modd i'r gymuned leol a thrydydd parti ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl.<br><br>Bydd y berthynas bresennol sydd gan Ysgol Gynradd Dolau gyda Heddlu De Cymru a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn parhau a bydd hefyd yn ymestyn i gynnwys yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd. |
| **ADRAN 8 – CRYNODEB O'R EFFAITH AR Y GYMUNED** | |
| | I gadarnhau, mae'r Cyngor yn ystyried bod effaith cyffredinol y cynnig ar y gymuned yn gadarnhaol.<br><br>Bydd cynnwys cyfleusterau cymunedol yn yr adeilad ysgol newydd, a hynny y tu mewn ac yn yr awyr agored, yn sicrhau bod cyfleoedd sylweddol well ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned yn cael eu darparu o gymharu â'r trefniadau presennol sydd ar gael yn yr ardal leol.<br><br>Bydd yr ysgol newydd yn cael ei dylunio i fod yn ysgol gwbl hygyrch, gan gynyddu cyfleoedd i'r gymuned gyfan gael mynediad at y cyfleusterau newydd, cryfhau perthnasoedd ac integreiddio'r ysgol newydd yn llawn i'r gymuned, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd ar gyfer yr ysgol bresennol. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. Byddai'r cyfleusterau yma hefyd ar gael i'r disgyblion hynny sy'n mynychu Ysgol Gynradd Dolau ar hyn o bryd, pe bai'r cynnig yn llwyddiannus.<br><br>Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion cynradd newydd gynnwys darpariaeth ar gyfer chwaraeon tîm, gan gynnwys man chwarae sy'n addas ar gyfer gemau tîm ar gyfer disgyblion 8 oed a hŷn ac Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) ar gyfer chwaraeon fel pêl-fasged a phêl-rwyd. Mae'n ofynnol hefyd i ysgolion newydd gynnwys ardaloedd chwarae |

| | |
|---|---|
| | meddal – fel arfer man glaswellt - lle mae modd i ddisgyblion eistedd a chymdeithasu, ochr yn ochr â meysydd chwarae wyneb caled a man dan gysgod i ategu'r ardaloedd chwarae meddal o amgylch safle'r ysgol. Mae'r ysgol newydd hefyd yn cynnwys ardal ysgol goedwig ar gyfer dysgu yn yr awyr agored ac yn darparu adnodd addysgu a dysgu gwerthfawr i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. |
| **ADRAN 9 – AWDURDODI** | |
| **Swyddog Arweiniol:** | Lisa Howell. |
| **Swydd** | Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion – Ysgolion yr 21ain Ganrif |
| **Dyddiad:** | 04.09.2024 |
| **Argymhellion:** | **Argymhellion**<br>**Argymhelliad** / **Rhowch groes yn yr Argymhelliad perthnasol**<br>**Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw welliannau**: X<br>**Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu**:<br>**Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymuned.**: |
| **Pennaeth Gwasanaeth/ Cyfarwyddwr:** | Andrea Richards. |
| **Swydd:** | Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid |
| **Dyddiad:** | 04.09.2024 |
| Cyflwynwch yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yma gydag unrhyw Adroddiadau i'r Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor. | |
| **ADRAN 10 – TREFNIADAU AR GYFER MONITRO AC ADOLYGU** | |
| **Monitro ac Adolygu:** | Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn cael ei adolygu ar ddiwedd y broses ymgynghori. |
| **ADRAN 11 – YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AR YR ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED AR ÔL CWBLHAU'R YMGYNGHORIAD** | |
| **Dyddiad:** | |
| **Diweddariad:** | |

Argymhellion (nested table):

| **Argymhelliad** | **Rhowch groes yn yr Argymhelliad perthnasol** |
|---|---|
| **Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw welliannau** | X |
| **Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu** | |
| **Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymuned.** | |